# adroddiadblynyddol 2016/17

**1** brifysgol **4** gwlad **miliynau** o fywydau

Fe lansiodd **Y Brifysgol Agored** chwyldro sydd wedi newid miliynau o fywydau, ac mae'n dal i fynd. Rydym yn harneisio pŵer addysg i **greu dyfodol agored**.








Wales Cymru

GYDA'N GILYDD
GALLWN **GREU**
**DYFODOL AGORED**



BYDDWCH **YN EOFN**
BYDDWCH **YN DDEWR**
BYDDWCH **YN WYCH**









Mwy

# RHAGAIR YR IS-GANGHELLOR



## Ni ddylai o ble fyddwch chi'n cychwyn mewn bywyd gyfyngu ar ble fyddwch chi'n mynd.

Er gwaethaf sefyllfa addysg uwch heriol, mae gennym nifer o straeon ysbrydoledig i'w rhannu gan ein myfyrwyr a staff anhygoel. Gobeithio y byddwch yn ymuno â mi wrth ddarllen a chlywed mwy, gan fod yr adroddiad hwn yn cynnwys nifer o'r achlysuron hynny a newidiodd fywydau.

Ledled Lloegr, mae'r nifer o fyfyrwyr rhan-amser wedi bod yn lleihau, ond mae'r Brifysgol Agored wedi bod yn weithgar yn ei hymdrechion i hybu cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr cyfredol ac yn y dyfodol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Rydym yn cefnogi oddeutu hanner yr holl fyfyrwyr rhan-amser gydag anableddau, a myfyrwyr nad oes ganddynt y gofynion mynediad arferol i brifysgol. Fel y sefydliad mwyaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer cynnydd cymdeithasol, mae gennym gyfrifoldeb enfawr.

Rydym yn gadarn o'r farn fod y Deyrnas Unedig angen system addysg uwch amrywiol a hyblyg i fodloni heriau economaidd y sefyllfa wedi Brexit. Mae addysg ran-amser yn ffordd gost effeithiol o ddatgloi potensial y Deyrnas Unedig ac i ddatblygu ein gweithlu i sicrhau bod gennym y sgiliau gofynnol ar gyfer y dyfodol. Mae'r ffocws yn ein gwaith gyda busnesau llai a chewri sectorau fel y GIG yn fwy nag erioed. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyfarnu dros ugain mil o gymwysterau, yn amrywio o Dystysgrifau Addysg Uwch i Ddoethuriaethau mewn Athroniaeth. Mae ein cyrhaeddiad ac effaith yn y sector addysg uwch yn wirioneddol enfawr.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae gwaith ar ein strategaeth Myfyrwyr yn Gyntaf ar gyfer twf wedi symud ymlaen yn dda. Tu ôl i'r llenni, mae cydweithwyr wedi gweithio'n galed i ganfod dulliau newydd i'r Brifysgol Agored fod yn sefydliad hyd yn oed yn fwy effeithiol a chynaliadwy. Rhaid i ni wneud hyn er mwyn ehangu ein cenhadaeth gymdeithasol. Mwy nag erioed o'r blaen, mae cyllid ar gyfer addysg uwch ar groesffordd. Dyna pam ein bod yn arallgyfeirio ein hincwm. Gan gofio hyn, mae ein hymgyrch Dyfodol Agored ar y ffordd i godi £50 miliwn erbyn ein pen-blwydd yn hanner cant yn 2019. Y nod? Rhoi rhodd addysg i bawb.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r staff, myfyrwyr a chefnogwyr ymroddedig sy'n parhau i wneud y Brifysgol Agored yn lle arbennig. Gyda'n gilydd, rydym yn newid bywydau bob dydd.

Mae'r rhagolygon yn dda – mae'r Brifysgol pedair gwlad, fyd eang hon yn mynd yn bell. Ymunwch â ni.

**Peter Horrocks**
**Is-ganghellor**

> Rydyn ni'n brwydro'n galed er lles myfyrwyr rhan-amser



Is-ganghellor (chwith) gyda'r myfyriwr graddedig John Spence

> Mae'r rhagolygon yn dda – mae'r Brifysgol pedair gwlad, fyd eang hon yn mynd yn bell. Ymunwch â ni
>
> Peter Horrocks CBE
> Is-ganghellor

**CLICIWCH AR Y SAETHAU** TRWY GYDOL YR ADRODDIAD HWN I GAEL GWYBOD MWY



> Rwy'n ffodus i gwrdd â'r bobl anhygoel sy'n astudio yn y Brifysgol Agored ac alla i ddim dychmygu peidio â rhoi'r cyfle iddynt ein helpu fel cymdeithas
>
> Martha Lane Fox
> Canghellor

# AGOR BUSNESAU

Rydyn ni'n gweithio gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a di-elw i bontio'r bwlch mewn sgiliau a hybu cynhyrchiant.





Mae ein rhaglen o brentisiaethau gradd ac uwch seiliedig ar waith yn galluogi cyflogwyr yn Lloegr i ddefnyddio'r ardoll prentisiaethau i ddenu talent newydd, ac uwchsgilio staff yn seiliedig ar ofynion eu sefydliad.

Rydym hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr yng Ngogledd Iwerddon i ddarparu prentisiaethau uwch yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol, ac yn archwilio cyfleoedd i gynnig prentisiaethau yng Nghymru a'r Alban.

‘Gall sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn hyderus wrth weithio mewn partneriaeth gyda ni, gan wybod fod Gwasanaeth Masnachol y Goron wedi ein pennu i fod yn un o'r darparwyr gwerth gorau, mwyaf cystadleuol o'r Brentisiaeth Gradd Rheolwyr Siartredig a'r Brentisiaeth Gradd Broffesiynol Datrysiadau Digidol a Thechnoleg.’ David Willett, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Y Brifysgol Agored

MAE EIN CANLLAW NEWYDD YN HELPU CYFLOGWYR I WNEUD Y GORAU O ADDYSG UWCH A PHRENTISIAETHAU GRADD



RYDYM WEDI NODDI YMCHWIL NEWYDD SY'N HELPU CYFLOGWYR I YSGOGI DYSGU YN Y GWEITHLE



STORI ALEX

# AGOR BUSNESAU

MAE YSGOL FUSNES Y BRIFYSGOL AGORED WEDI ARLOESI GYDA'R MOOCS CYNTAF AR GYFER CREDYD ACADEMAIDD TU ALLAN I'R UNOL DALEITHIAU



YNG NGOGLEDD IWERDDON MAE'R BRIFYSGOL AGORED YN GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDAG **EIR BUSINESS NI** I HYBU SGILIAU





Delwedd © Yozayo/Thinkstock

Mae'r Brifysgol Agored wedi gweithio gyda dros 2,400 o gyflogwyr; noddodd 59 o gwmnïau FTSE 100 staff ar ein cyrsiau yn 2016/17.

Mae'r Brifysgol Agored wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r cwmni gwasanaethau ariannol True Potential LLP i greu'r ganolfan ymchwil ariannol bersonol gyntaf ac unigol yn y Deyrnas Unedig gyda rhaglen addysgu weithredol sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae The True Potential Centre for the Public Understanding of Finance yn helpu i ddelio â'r argyfwng cynyddol o ddyledion personol trwy lythrennedd ariannol.

Enillodd ei waith yn 2017 Wobr Prifysgol y Guardian yn y categori Partneriaeth Busnes.

**CLICIWCH YMA**

**DYWEDODD 94%** O DDYSGWYR AR Y CWRS AM DDIM 'RHEOLI FY ARIAN' EU BOD WEDI GWELLA EU DEALLTWRIAETH O REOLI CYLLID PERSONOL

# AGOR CYFLEOEDD









> Fe helpodd y gefnogaeth a dderbyniais i fi gael swydd gyda rhagolygon llawer gwell

Rydym yn ariannu rhaglen Cynnydd Cyflogadwyedd a Gyrfa Uwch i sicrhau bod hyd yn oed mwy o fyfyrwyr yn cyflawni deilliannau personol a gyrfa positif.

Mae'r flaenoriaeth strategol hon i'r Brifysgol yn canolbwyntio ar sefydlu cyflogadwyedd ym mhrofiad y myfyriwr a'r cwricwlwm; diwylliant staff; a chryfhau cysylltiadau gyda chyflogwyr.

Conglfaen y rhaglen ledled y Brifysgol yw ein Gwasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd estynedig a lansiwyd eleni.

> Mae'r Brifysgol Agored wedi newid fy mywyd. Mae wedi fy ngalluogi i gyflawni fy mreuddwyd o fod yn ymgynghorydd peirianneg
>
> Faye Banks,
> MEng ac un o'r 50 Peiriannydd Benywaidd Uchaf yn y Deyrnas Unedig gan y Telegraph yn 2016



STORI MARVA

# AGOR CYFLEOEDD







Delwedd © Sergey/IT/Thinkstock



"Roeddwn mewn argyfwng ariannol difrifol. Doedd gen i unman i aros … ond mi wnes i ddal ati i astudio oherwydd … pan fydd fy mhlant yn hŷn mi hoffwn iddyn nhw weld bod eu tad wedi gwneud rhywbeth o'i fywyd"

Shafiq Mohammed
myfyriwr y Brifysgol Agored yng Nghymru
ac enillydd gwobr dysgwr oedolyn Inspire! 2017

The Open University

DAW **55%** O FYFYRWYR Y BRIFYSGOL AGORED YN LLOEGR O **GEFNDIROEDD DIFREINTIEDIG**… DIM OND **29%** O FYFYRWYR AMSER LLAWN SYDD

YN 2016/17, DEWISODD **23,630 O FYFYRWYR GYDAG ANABLEDDAU** ASTUDIO GYDA NI

MAE'R BRIFYSGOL AGORED YN RHESTR 2017 **100 CYFLOGWR UCHAF STONEWALL** AR GYFER STAFF LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS




**STORI KARIS**

MAE'R BRIFYSGOL AGORED YN YR ALBAN YN DARPARU DYSGU AR LEFEL GRADD I **FYFYRWYR COLEG AR GAMPWS**

# AGOR CYFLEOEDD







The Open University

NI YW PRIFYSGOL FWYAF Y DEYRNAS UNEDIG, GYDA **122,326** O FYFYRWYR YN **LLOEGR**, **YR ALBAN**, **CYMRU**, **GOGLEDD IWERDDON** A **GWERINIAETH IWERDDON**

MYFYRIWR GRADDEDIG Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGOGLEDD IWERDDON, DAVID FERRAN YN ENNILL GWOBR AR GYFER **RHAGORIAETH ACADEMAIDD**

Y BRIFYSGOL AGORED YW'R **RHIF UN YMYSG PRIFYSGOLION GOGLEDD IWERDDON** AR GYFER 'BODDHAD CYFFREDINOL MYFYRWYR'

“Mae gennym 15,000 o fyfyrwyr yn yr Alban o bob cefndir”



MAE'R BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU A TUC CYMRU WEDI DATHLU 10 MLYNEDD O BARTNERIAETH SYDD WEDI CEFNOGI **1500 O DDYSGWYR**

RYDYN NI'N HELPU MWY O **FYFYRWYR YSGOL** YNG NGHYMRU I FYND YMLAEN I'R BRIFYSGOL

MAE GAN Y BRIFYSGOL AGORED DROS **120 O HYRWYDDWYR DYSGU AGORED** AR DRAWS YR ALBAN

# AGOR Y DYFODOL





**MORDAITH CODI ARIAN MILIWN O BUNNOEDD**

MAE **RHODDWYR** WEDI CYFRANNU RHODDION HAEL IAWN



DYSGWCH FWY NEU **CEFNOGWCH NI**

NAWR RYDYM YN DEFNYDDIO **CYLLIDO TORFOL**

Eleni, mae'r Brifysgol Agored wedi derbyn bron i £5.1 miliwn mewn rhoddion, yn cynnwys £496,000 o roddion etifeddiaeth.

Mae un gymynrodd unigol o £230,000 gan y cyn fyfyriwr Colin Hulme wedi ein galluogi i lansio'r Gronfa Ysgoloriaeth Cyn-filwyr Anabl i harneisio llawn botensial y rhai sy'n gadael y lluoedd arfog gydag anabledd.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r bron i 10,000 o roddwyr – cyn fyfyrwyr, ymddiriedolaethau, sefydliadau, cwmnïau ac unigolion – sydd wedi cefnogi ein cenhadaeth i wneud addysg yn agored i bawb.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

GYDA'N GILYDD GALLWN **GREU DYFODOL AGORED**



"Rydym yn falch i gefnogi ymchwil unigryw a diddorol y Brifysgol Agored"

David Simpson, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Ymddiriedolaeth elusennol Petplan yn cefnogi ymchwil i Ryngweithio Cyfrifiadurol Anifeilaidd

# AGOR MEDDYLIAU



**FIFTEEN BILLION POUND RAILWAY**



**TO WALK INVISIBLE**

Mae ein partneriaeth gyda'r BBC yn parhau i gyrraedd miliynau o bobl trwy deledu, radio, llwyfannau digidol, ar-lein a chymdeithasol, yn ysbrydoli niferoedd enfawr i glicio ymlaen a darganfod dysgu'r Brifysgol Agored.



**HOSPITAL**

Eleni, mae ein prosiectau darlledu wedi ennill 15 o wobrau mawr, yn cynnwys Y Brif Wobr Learning on Screen, Y Griersons, BAFTA a Gwobr Ddarlledu am y Gyfres Ddogfennol Orau.

Parhaodd ein hymgyrchoedd ehangu cyfranogiad, a gynhyrchwyd ar y cyd gyda'r BBC, eleni gyda *Can Britain Have a Pay Rise* a *Britain's Greatest Invention*.

*Mae Britain's Greatest Invention* yn rhan o Tomorrow's World, yr ymgyrch amlwg ar draws y Deyrnas Unedig i annog pawb i ymgysylltu â gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae uchafbwyntiau eraill y Brifysgol Agored/BBC yn cynnwys y ddrama Brontë *To Walk Invisible*, cyfres y GIG *Hospital*, *The Fifteen Billion Pound Railway* a'r gyfres hirsefydlog *Child of Our Time*.

The Open University


DROS **256 MILIWN** O DDIGWYDDIADAU GWYLIO A GWRANDO AR GYFER EIN CYNNWYS PRIFYSGOL AGORED/BBC

The Open University

**75 AWR** O ADNODDAU CLYWELEDOL AC ASEDAU UNIGRYW AR GYFER ADDYSGU'R BRIFYSGOL AGORED

“Ydych chi wedi sylwi fod y rhaglenni mwyaf diddorol ar y teledu wedi eu creu gyda'r Brifysgol Agored?”

# AGOR MEDDYLIAU




Mae ein gwefan ddysgu am ddim, OpenLearn wedi dathlu ei 10fed pen-blwydd. Mae'n cynnig dros 1000 o gyrsiau ar-lein am ddim sydd ar gael i unrhyw un gychwyn ar unwaith.

> “Mae OpenLearn yn darparu adnoddau addysgol am ddim i gyrraedd miliynau o ddysgwyr ledled y byd”

Mae ein dyluniad newydd OpenLearn yn 2017 wedi ychwanegu adnoddau i hybu sgiliau ar gyfer gwaith a sgiliau ar gyfer astudio.

Rydym yn ehangu ein detholiad o gyrsiau bathodynnau digidol arloesol OpenLearn, sy'n galluogi dysgwyr i gofnodi a rhannu tystiolaeth o'u cyflawniadau ar draws amrywiaeth o e-lwyfannau.

Mae cyrsiau agored bathodyn yn cyrraedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o ddysgwyr gydag anabledd, gyda Saesneg fel ail iaith, a heb unrhyw radd israddedig.


**DROS 7000** O FATHODYNNAU DIGIDOL WEDI EU SICRHAU GAN DDYSGWYR ANFFURFIOL

MAE **OPENLEARN CYMRU** YN CYNNIG ADNODDAU DYSGU AM DDIM YN GYMRAEG A SAESNEG

**50 MILIWN** O YMWELWYR I OPENLEARN ERS EI LANSIO

Y DEG FIDEO OPENLEARN MWYAF POBLOGAIDD WEDI EU GWYLIO GAN **FILIYNAU**

## AGOR MEDDYLIAU



Delwedd © manjik/Thinkstock

Mae ein hymchwil a datblygu blaenllaw ac arloesol ymysg y traean uchaf o brifysgolion y Deyrnas Unedig.

Mae ymchwilwyr y Brifysgol Agored yn gweithio'n agos ar y Cylchdröwr Nwy Hybrin ar fwrdd taith ExoMars ESA, sy'n chwilio am fethan ac arwyddion o fywyd ar blaned Mawrth.

Ers i'r cylchdröwr fynd i orbit Mawrth yn Hydref 2016 mae ei offerynnau NOMAD a CaSSIS wedi bod yn anfon delweddau a data yn ôl i'n gwyddonwyr i'w dadansoddi.

Mae ein maes ymchwil blaenoriaeth Archwilio'r Gofod wedi derbyn grantiau o gyfanswm o dros £1 miliwn eleni gan Asiantaeth Gofod y Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwil ar blaned Mawrth a'r Lleuad.

Y GOFOD YW UN O'R **PUMP THEMA YMCHWIL ALLWEDDOL** YN Y BRIFYSGOL AGORED




GWOBR SUFFRAGE SCIENCE AR GYFER HYRWYDDO **GYRFAOEDD MENYWOD MEWN MATHEMATEG**

# AGOR MEDDYLIAU

Mae ein hymchwil wedi ei chynllunio i gael effaith a newid bywydau er gwell.



Enillodd labordai OpenSTEM y Brifysgol Agored wobr Arloesiad Digidol Eithriadol y Flwyddyn yng Ngwobrau Arweinyddiaeth a rheoli Times Higher Education eleni.

Mae OpenSTEM yn galluogi myfyrwyr gwyddoniaeth i gyflawni arbrofion o bell trwy gysylltu i offerynnau gwyddonol ar-lein, gan wneud y labordy yn hygyrch i bawb.

‘Mae gan yr arloesiad hwn oblygiadau pellgyrhaeddol, nid yn unig ar gyfer dysgwyr o bell, ond hefyd o ran uchafu defnydd, effaith ac elw ar fuddsoddiad offer arbenigol,’ meddai Beirniaid y Wobr.

**963** ALLBWN YMCHWIL WEDI EU HYCHWANEGU YN 2016/17 I'N HYMCHWIL AGORED AR-LEIN SYDD AR GAEL AM DDIM

The Open University

**72%** O YMCHWIL Y BRIFYSGOL AGORED YN ‘FLAENLLAW’ NEU ‘RYNGWLADOL WYCH’ (REF 2014)

**6** GWOBR ATHENA SWAN AR GYFER YMRODDIAD I GYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU

# AGOR BYWYDAU











The Open University

**70%** O DDISGYBLION CYNRADD YM MANGLADESH NAWR YN GALLU DEFNYDDIO SAESNEG SYLFAENOL (CYNNYDD O 36%)

Mae ein prosiectau, wedi eu cyflawni gyda phartneriaid lleol, yn datblygu miloedd o athrawon a gweithwyr iechyd yn Asia ac Affrica.

Ym Mangladesh, mae English in Action wedi helpu dros saith miliwn o blant ysgolion cynradd ac uwchradd i wella eu haddysg iaith Saesneg fel llwybr allan o dlodi ac i waith. Gall dros 53,000 o athrawon dosbarth nawr gael mynediad at adnoddau dysgu iaith o ansawdd uchel trwy ffonau symudol cost isel.

Mae OpenWASH yn gyfres o adnoddau dysgu arloesol ar ddŵr, glanweithdra a hylendid a lansiom yn 2016 mewn partneriaeth â World Vision Ethiopia ac UNICEF.

Mae'n cefnogi Rhaglen Genedlaethol One WASH llywodraeth Ethiopia i ddarparu dŵr diogel a gwella glanweithdra ar gyfer bron i 30 miliwn o bobl.

**CLICIWCH YMA**

# AGOR BYWYDAU



Rydym yn defnyddio ein harbenigedd mewn dysgu agored ac o bell ar raddfa fawr i wella bywydau ledled y byd.









Mae ein prosiect athrawon TESS-India arobryn nawr yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag Achub y Plant India.

Ers 2012, mae TESS-India wedi harneisio pŵer TG i ddarparu adnoddau addysgol o safon uchel am ddim i athrawon, gan drawsnewid y profiad yn y dosbarth.

Mae'r bartneriaeth gydag Achub y Plant India nawr yn galluogi TESS-India i drosi o fod yn gymorth a gefnogir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddyfodol annibynnol a chynaliadwy.

**CLICIWCH YMA**

The Open University

MAE TESS-INDIA WEDI CYRRAEDD DROS **1 MILIWN** O ATHRAWON AC ADDYSGWYR ATHRAWON

> Prosiect rhagorol gyda chyrhaeddiad digyffelyb, wedi ei gyflawni i'r raddfa briodol

Beirniaid, Gwobrau Prifysgol y Guardian 2017

# adroddiadblynyddol 2016/17

**1** brifysgol **4** gwlad **miliynau** o fywydau

Fe lansiodd **Y Brifysgol Agored** chwyldro sydd wedi newid miliynau o fywydau, ac mae'n dal i fynd. Rydym yn harneisio pŵer addysg i **greu dyfodol agored**.

Y BRIFYSGOL FWYAF YN EWROP GYDA

**173,927** O FYFYRWYR



NODDODD **59** O GWMNÏAU FTSE 100 STAFF AR GYRSIAU PRIFYSGOL AGORED YN 2016/17

**23,630** O FYFYRWYR AG ANABLEDDAU

**DATGANIADAU ARIANNOL**

2016/2017

**CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM GYNLLUN AC AMCANION CYDRADDOLDEB Y BRIFYSGOL AGORED

**AELODAETH O'R CYNGOR**

2016/2017

**CYSWLLT:**

LUCIAN J HUDSON
CYFARWYDDWR CYFATHREBU

**+44 (0)1908 274066**

**COMMUNICATIONS@OPEN.AC.UK**

**@OPENUNIVERSITY**
**@OUSCOTLAND**
**@OUCYMRU**
**@OUBELFAST**
**@OUIRELAND**

Ymgorfforwyd y Brifysgol Agored trwy Siarter Frenhinol (RC 000391), elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr, ac elusen a gofrestrwyd yn yr Alban (SC 038302). Awdurdodir a rheolir y Brifysgol Agored gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
© Y BRIFYSGOL AGORED 2017